
Mae Brechu yn achub bywydau
Vaccination saves lives


GIG CYMRU NHS WALES
Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

# Beth yw'r brechlyn MenACWY?




Bob blwyddyn, mae dros 500,000 o bobl ifanc yng ngwledydd Prydain sydd yr un oed â ti yn cael y brechlyn MenACWY i wella amddiffyniad rhag clefyd meningococol.
DIWRNOD BRECHU DDYDD MERCHER YMA.
Mae'r brechlyn yn helpu i dy amddiffyn rhag pedwar o'r pum prif grŵp o facteria meningococol,
sef Llid yr Ymennydd A, C, W ac Y, sy'n achosi llid yr ymennydd a septisemia.
Mae brechlyn yn erbyn Llid yr Ymennydd B yn cael ei gynnig i bob babi
Mae llid yr ymennydd yn gallu achosi twymyn, cur pen, a chwydu, ac os na chaiff ei drin, mae'n gallu arwain at sepsis, sy'n gallu niweidio dy organau hanfodol yn ddifrifol ac achosi marwolaeth.
Wyt ti'n iawn?
Mae meningococol yn glefyd heintus ac mae'n gallu cael ei drosglwyddo rhwng pobl drwy beswch a thisian yn agos at ei gilydd a thrwy gysylltiad agos.
Mae pob brechlyn yn cael ei brofi'n helaeth i sicrhau ei fod yn ddiogel, yn union fel yr un yma.
Mae llid yr ymennydd yn gallu effeithio ar unrhyw un, ac mae pobl 15 i 19 oed yn fwy tebygol o gario'r bacteria heb iddyn nhw wybod.


Mae'r brechlyn MenACWY yn helpu i dy amddiffyn di a phobl eraill o dy gwmpas drwy leihau lledaeniad y bacteria, sy'n golygu bod brechu'n bwysig i bawb.
A dyma ti. Welai di wedyn.
Brechlynnau MenACWY ac Atgyfnerthu 3-mewn-1 i Arddegwyr yn cael eu cynnal
Mae'r brechlyn yn cael ei roi fel pigiad cyflym yn rhan uchaf y fraich gan weithiwr iechyd proffesiynol sydd wedi cael ei hyfforddi i wneud.
Byddan nhw'n gofyn os wyt ti'n barod yn gyntaf. A byddan nhw wedi gorffen cyn i ti sylwi...
oherwydd dydy llawer o bobl, fel fi, ddim hyd yn oed yn teimlo'r pigiad.
Beth ddwedais i? Roedd e'n hawdd, yn doedd?




**Beth am rannu beth rwyt ti wedi'i ddysgu am y brechlyn MenACWY gyda dy riant neu warcheidwad? Byddi di'n cael gwybodaeth i fynd adre gyda ti cyn y brechlyn a galli di ddangos y comig yma iddyn nhw. Galli di hefyd anfon dolen atyn nhw i wefan Iechyd Cyhoeddus Cymru.**

**icc.gig.cymru/brechlynnau**

**Os nad wyt ti'n mynd i'r ysgol, neu os na fyddi di yn yr ysgol ar ddiwrnod y brechlyn, galli di drefnu apwyntiad i'w gael yn dy feddygfa neu cysyllta â nyrs yr ysgol neu'r tîm imiwneiddio.**

Mae Brechu yn achub bywydau
Vaccination saves lives

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru | Public Health Wales